Buddsoddwyr mewn Gofalwyr | Investors in Carers

Ysgol Gyfun Aberaeron
Datganiad o'r Effaith ar Ofalwyr

Mae'r datganiad o effaith canlynol yn nodi'r dulliau yr ydym yn eu defnyddio i enwi Gofalwyr o bob oed, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu hatgyfeirio mewn modd priodol.

Ein nod yw cefnogi bywydau pobl, a hynny ochr yn ochr â'u gwaith o ofalu, trwy enwi a chydnabod Gofalwyr, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd ar gael ar eu cyfer.

Canlyniadau:

- Cynorthwyo Gofalwyr i ystyried y sefydliad fel rhywle sy'n sensitif i'w hanghenion
- Cynnig cymorth a gwybodaeth am iechyd a lles i Ofalwyr, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol iddynt
- Cynnig atgyfeirio Gofalwyr at help a chymorth pellach, yn ogystal â rhoi gwybod iddynt am y sawl y gallant gysylltu ag ef os bydd ganddynt gwestiynau, neu os bydd arnynt angen cymorth.
- Cyfeirio Gofalwyr at gymorth pellach

Unigolion yw Gofalwyr, ni waeth faint yw eu hoedran, sy'n goruchwylio neu'n gofalu am blentyn, perthynas, partner, neu gymydog nad yw'n medru ymdopi ar ei ben ei hun o ganlyniad i salwch, anabledd, eiddilwch, problem iechyd meddwl, nam, neu arfer o gamddefnyddio sylweddau.

Yn y ddogfen hon, nid yw'r term 'Gofalwr' yn cyfeirio at weithiwr gofal na chynorthwyydd gofal sy'n cael ei dalu, gwirfoddolwr o unrhyw asiantaeth wirfoddol, nac unrhyw unigolyn sy'n darparu cymorth personol am dâl.

Demograffeg yr ardal a wasanaethir a disgrifiad o'r sefydliad:
Mae Ysgol Gyfun Aberaeron yn ysgol ddwyieithog naturiol, gymysg a gynhelir gan Awdurdod Addysg Ceredigion, ar gyfer plant 11-18 oed gyda chyfanswm o 575 o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal wledig ar arfordir Gorllewin Cymru, o Lanrhystud, Cross Inn Nebo, Felinfach, Cei Newydd a Plwmp. Mae'n cyflogi oddeutu 100 o staff, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr dysgu, staff gweinyddol, cogyddion a glanhawyr. Ein Arweinydd Gofalwr yw Anwen Davies, gyda Nia Phillips yn Arweinydd Is-ofalwr.

Sut rydym yn gweithredu:
Mae'r holl staff addysgu yn ymwybodol o'n gofalwyr presennol o fewn yr ysgol. Daw gweithiwr cefnogi Gofalwyr, Vicky Phillips, i'r ysgol i gefnogi'r Gofalwyr Ifanc unwaith y mis. Mae gennym hysbysfwrdd Gofalwyr o fewn yr ysgol a thaflenni ar gyfer disgyblion yn yr Hafan yn ogystal â gwybodaeth a thaflenni yn yr ystafell staff. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar godi ymwybyddiaeth o Ofalwyr yn ogystal â gwasanaeth ysgol gyfan am Ofalwyr.

Bydd ein Datganiad o'r Effaith ar Ofalwyr yn cael ei adolygu'n flynyddol yn Ebrill a hynny gan aelodau o staff y sefydliad, a bydd unrhyw ddiwygiadau'n cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd tîm priodol.

Enw: Mr Owain Jones, Prifathro

Llofnod ..... **Dyddiad** 3/4/19